Cyfarfod y Grŵp Cynghorol ar Drethi
19 Gorffennaf 2016
Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Y Grŵp Cynghorol ar Drethi

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Cadeirydd)
Andrew Evans, Geldards
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Leighton Jenkins ar ran Emma Watkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru
Ben Cottam ar ran Janet Jones, Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Martin Warren, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
Jon Rae ar ran Aaron Shotton, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Swyddogion yn bresennol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru
Georgina Haarhoff, Pennaeth Polisi Trethi a Rheoli Deddfwriaeth
Ed Sherriff, Pennaeth y Strategaeth Gyllidol
Jo Berry, Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
Ruth Leggett, Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
Lu Toscano Davies (Ysgrifenyddiaeth)

Croeso gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y rhai oedd wedi dod i wythfed cyfarfod Grŵp Cynghorol Trethi Cymru, ei gyfarfod cyntaf yn ei swydd newydd.

Materion yn codi

2. Roedd y nodiadau ar gyfarfod blaenorol y Grŵp wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod ac roedd yr holl gamau gweithredu wedi cael eu cyflawni. Cadarnhaodd y Grŵp fod y nodiadau'n grynodeb cywir o'r drafodaeth.

Y diweddaraf ar ddatganoli trethi, deddfwriaeth a blaenoriaethau diwygio cyllidol

3. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet effaith y refferendwm ar yr UE ar gyfrifoldebau datganoledig, a allai fod yn helaeth, ond tanlinellodd bwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar gyflawni agenda Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am bedwar maes gwaith allweddol:
   - Awdurdod Cyllid Cymru;
   - Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi;
   - fframwaith cyllidol;
   - strategaeth polisi trethi.

<u>Awdurdod Cyllid Cymru</u>

4. Yn ddiweddar roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi y byddai Awdurdod Cyllid Cymru'n casglu a rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir a'r rhan fwyaf o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gyda rhywfaint o gymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Pan fyddai Awdurdod Cyllid Cymru'n weithredol, byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi'n parhau i ddarparu arbenigedd trwy fenthyciadau a secondiadau.

5. Hefyd byddai Dyfed Alsop yn ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Cyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol agos iawn. Roedd y broses o benodi'r Cadeirydd ar y gweill, a châi'r swydd ei hysbysebu ym mis Medi. Disgwylid y byddai'r Cadeirydd yn ei swydd erbyn mis Ionawr 2017. Roedd digwyddiad brecwast yn cael ei drefnu i gynorthwyo â'r gwaith o recriwtio Cadeirydd a Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r rheiny fyddai â diddordeb ddysgu mwy am Awdurdod Cyllid Cymru.

<u>Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi</u>

6. Câi Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig ei gyflwyno gerbron y Cynulliad yn yr hydref. Roedd y Bil yn ddarn mawr a chymhleth o

ddeddfwriaeth, ac roedd wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft cyn cael ei gyflwyno i roi cyfle i randdeiliaid ymgyfarwyddo â'r cynnwys cyn i'r broses craffu ddechrau.

7. Roedd ymgynghoriad technegol wedi cael ei gyhoeddi i ofyn am farn ar gyfradd uwch ar gyfer eiddo ychwanegol.

8. Câi'r Bil hwn ei gyflwyno yn ddiweddarach yn yr hydref. Fel rhan o hyn, byddai Llywodraeth Cymru'n ceisio sefydlu cynllun cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn lle'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi bresennol.

Fframwaith cyllidol

9. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys cyn bo hir i gytuno ar gwmpas y trafodaethau ar fframwaith cyllidol newydd i Gymru. Roedd y meysydd i'w hystyried yn cynnwys gweithrediad hirdymor y cyllid gwaelodol a therfyn benthyca cyfalaf uwch.

10. Byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i bwyso am i'r doll teithwyr awyr gael ei datganoli, fan lleiaf ar gyfer teithiau hir uniongyrchol, er mwyn sicrhau cydraddoldeb â Gogledd Iwerddon.

Strategaeth polisi trethi

11. Dros y misoedd i ddod, byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn datblygu strategaeth polisi trethi i Gymru. Gwahoddodd aelodau'r Grŵp i roi unrhyw feddyliau cynnar.

Blaenoriaethau'r aelodau o ran trethi

12. Bu aelodau'r Grŵp yn trafod a rhannu eu barn gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd y materion a godwyd gan yr aelodau'n cynnwys:

- yr angen am symlrwydd, eglurder a hygyrchedd wrth ddatblygu polisi trethi datganoledig, pwysigrwydd consensws, cymuned a chyfathrebu, a sicrhau caniatáu digon o amser i baratoi ar gyfer newid;

- cynigiodd aelodau gymorth i helpu i sicrhau bod amrywiaeth fawr o bobl yn ymwybodol o'r broses ymgeisio am swyddi cadeirydd a bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru ac i annog amrywiaeth o sgiliau, profiadau a chefndiroedd;

- byddai angen i Awdurdod Cyllid Cymru roi pwyslais ar wasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys prosesau trethi o'r ansawdd gorau, gan ddefnyddio arbenigedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

- roedd angen i ddeddfwriaeth trethi Cymru a Lloegr gyd-fynd yn agos, gan atal cyfleoedd i ddefnyddio bylchau;

- pwysigrwydd sefydlu fframwaith cyllidol teg i Gymru.

13. Rhoddodd Dr Winckler y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwersi a ddysgwyd o adroddiad terfynol Sefydliad Bevan ar drethi datganoledig newydd posibl i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

14. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyfathrebu'n thema allweddol a chroesawodd y cynigion gan aelodau i ledu negeseuon trwy eu sianelau. Tanlinellodd yr angen i gael yr agweddau ymarferol ar y prosesau trethi'n iawn, a rôl bwysig Awdurdod Cyllid Cymru yn y gwaith o gyflawni hyn.

Unrhyw fusnes arall

15. Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan unrhyw fusnes arall.

16. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniadau defnyddiol ac adeiladol. Câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal yn yr hydref.